CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 24AIN IONAWR, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 17 Ionawr 2017)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Edgar Wyn Owen
Annwen Hughes
W. Tudor Owen

Craig ab Iago
Dilwyn Morgan
E. Caerwyn Roberts
Sedd wag

Annwen Daniels
Linda Morgan
Gruffydd Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eric M. Jones
Angela Russell
Louise Hughes

Nigel Pickavance
Mike Stevens

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Endaf Cooke

## Llafur (1)

Y Cynghorwyr
Glyn Thomas

## Democratiaid Rhydfrydol (1)

Y Cynghorwyr
Stephen W. Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 24.11.16 fel rhai cywir

## 5. TORIADAU RHEOLAETH TRAETHAU — 9 - 12

Ystyried adroddiad Uwch Reolwr Economi a Chymuned

## 6. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y GWASANAETH CYMUNEDAU IACH I GWRDD GYDA THARGEDAU ARBEDION EFFEITHLONRWYDD A'R YMATEB I ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU — 13 - 25

Ystyried adroddiad Uwch Reolwr Economi a Chymuned

## 7. CLUDIANT ADDYSG OL 16 — 26 - 28

Derbyn adroddiad gan yr Aelod Cabinet ar weithredu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD IAU, 24 TACHWEDD 2016

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Daniels, Eric M. Jones, Dilwyn Morgan, Edgar Wyn Owen, Tudor Owen, E. Caerwyn Roberts, Angela Russell, Glyn Thomas a Gruffydd Williams.

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

a) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen - Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet), Arwel Wyn Owen (Uwch Reolwr Tai), Elliw Llŷr (Rheolwr Strategol Tai), Ffrancon Williams (Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd) ac Enid Roberts (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cwsmeriaid a Chymunedau - Cartrefi Cymunedol Gwynedd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Craig ab Iago, Stephen Churchman, Annwen Hughes, Linda Morgan, Nigel Pickavance a Mike Stevens

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelod canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Angela Russell yn eitem 7 ar y rhaglen, oherwydd bod ei merch yn denant ac yn gyn-gadeirydd Bwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd .

  Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais a nodir.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 22 09 2016 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**5. CYFEIRIAD Y STRATEGAETH TAI A RÔL Y CYMDEITHASAU**

Cyflwynwyd adroddiad, i ennyn trafodaeth ar flaenoriaethau Strategaeth Partneriaeth Tai Gwynedd 2013 – 2017. Nodwyd rôl y cymdeithasau tai i gyflawni'r blaenoriaethau hyn ynghyd a sut bydd rhai materion yn cael eu cyfarch wrth adolygu'r Strategaeth ar gyfer y cyfnod 2017 - 2021.

Amlygodd y Rheolwr Strategol Tai bod Cymdeithasau Tai yn darparu mwy na chartrefi a bod yr adroddiad yn cyfeirio at yr hyn sydd wedi ei gwblhau ynghyd a'r prif lwyddiannau dros gyfnod y strategaeth. Ymddengys buddion ychwanegol megis cyfleoedd gwaith a

chyfleoedd i bobl symud ymlaen yn y farchnad dai. Er hynny, eu prif bwyslais yw adeiladu datblygiadau o'r newydd sydd yn cael eu hariannu drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru. Amlygwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gosod targed cyflenwad o 20,000 o unedau erbyn diwedd y Llywodraeth nesaf sydd yn rhoi pwyslais a brys ar Gynghorau a Chymdeithasau Tai i ymateb. Y Cyngor sydd yn penderfynu blaenoriaethau strategol y datblygiadau hyn drwy gydweithio a chyfeirio'r Cymdeithasau Tai i ardaloedd lle targedir ardaloedd gwahanol wedi eu rhannu yn ôl yr angen. Bydd y broses yn adnabod darpar denantiaid drwy'r Polisi Gosod a'r Tîm Opsiynau Tai. Cyfeiriwyd at Rôl y Wardeiniaid Ynni sydd yn dyngedfennol o ran cyflwyno a hyrwyddo cynlluniau. Nodwyd bod nifer o Bartneriaid y Bartneriaeth yn cyfrannu tuag ar y rôl yma - enghraifft o gynlluniau ynni yw 'Nyth' a 'Cartrefi Clud'.

Ynghyd â datblygiadau newydd, eglurwyd bod y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar faterion digartrefedd a'r Ddeddf Tai drwy gydweithio gyda Chymdeithasau Tai a Thîm Cefnogi Pobl i ddarparu gwasanaethau i drigolion mwyaf bregus ein cymdeithas. Nodwyd, wrth adolygu'r strategaeth y bydd angen i'r partneriaid, fel darparwyr a hyrwyddwyr, fod yn ganolog i sicrhau bod y berthynas yn parhau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol:

- Bod rhai ardaloedd yn parhau i weld angen
- Beth yw gweledigaeth y Cymdeithasau Tai?
- Rhaid gwneud mwy i gadw pobl yn lleol - angen hyder yn y drefn gosod
- Pam adeiladu o'r newydd? - angen edrych ar y sefyllfa o dai ar werth a thai gwag
- Treth llofftydd gwag yn gost ychwanegol i'r tenant
- Bod adeiladu o'r newydd yn gallu creu geto tu allan i gymunedau lle gwelir pobl yn symud o ganol pentrefi i fyw ar y cyrion.
- Angen cynlluniau sydd yn cynnwys mwy o fyngalos
- Rhaid edrych yn fanwl ar y tymor hir o ran addasrwydd tai - rhaid cael gweledigaeth tymor hir

Cydnabuwyd bod y sefyllfa yn heriol gydag anawsterau a thrafferthion sylweddol i wneud yr hyn sydd yn bosib gyda'r adnoddau sydd ar gael. Amlygwyd bod y Strategaeth yn gadarn - y capasiti i weithredu ac ariannu'r cynlluniau sydd yn heriol

Mewn ymateb i'r pryder am y drefn gosod, cydnabuwyd bod pwyslais wedi bod yn y gorffennol i osod o fewn amserlen dynn, ond bellach bod cydnabyddiaeth i edrych ar gael y tenant cywir i'r lleoliad cywir. Derbyniwyd yr awgrym i gysylltu gyda'r Aelod Lleol mewn ardaloedd lle mae rhestri gwan neu sefyllfa, lle efallai, ceir rhybudd ymlaen llaw am dy gwag. Nodwyd bod cynnal adolygiad i waith y Tîm Opsiynau Tai (sydd wedi ei sefydlu ers 2012) yn cael ei gwblhau

Cartrefi Clud - mewn ymateb i sylw amlygwyd bod gofynion y cynllun yn cyfyngu'r nifer o dai. Adroddwyd bod pob cynllun yn wahanol gyda meini prawf gwahanol ac amserlen dynn i gyflwyno cais. Mynegwyd pryder am ddiffyg adnodd o fewn yr uned a bod cydweithio a chefnogaeth y Cymdeithasau Tai wedi bod yn fanteisiol i geisio gwybodaeth. Ategwyd, bod y canllawiau cenedlaethol yn rhwystr ac awgrymwyd cysylltu gyda'r Cynulliad i adrodd nad oedd y drefn yn arwain at gynllunio effeithiol.

Mewn ymateb i sylw, ac awydd i adeiladu mwy o fyngalos ar gyfer pobl hŷn, amlygwyd bod y Strategaeth Letya Pobl Hŷn yn edrych ar y sefyllfa sy'n gyffredin ar draws y Sir. Nodwyd bod y diwydiant adeiladu a datblygwyr yn ymddangos yn ystyfnig gan nad yw adeiladu byngalo yn gost effeithiol. Nodwyd bod pedair ardal wedi ei hadnabod o fewn y Strategaeth Letya Pobl Hŷn a bod angen gwneud gwaith i geisio datrysiadau a chynnal sgwrs am ddyheadau teuluoedd.

Adroddwyd bod Tai Gofal Ychwanegol wedi rhyddhau 16 uned ar gyfer teuluoedd ym Mangor yn dilyn gwaith i hwyluso a helpu unigolion i symud. Wedi cwblhau Hafod y Gest ym Mhorthmadog, bydd angen edrych ar yr opsiynau nesaf gan ystyried modelau gwahanol ar gyfer cymunedau llai sydd yn cynnig yr un cyfleoedd i bobl hŷn.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan groesawu'r cyfle i gynnal trafodaeth gychwynnol ynglŷn â chyfeiriad y Strategaeth a chynnig y sylwadau isod:**

- **Fforddiadwyedd - pwysleisio bod angen ymateb i'r argyfwng fforddiadwyedd tai - i'r Bartneriaeth edrych ar ddulliau a ffyrdd gwahanol o wneud gwahaniaeth ac ymateb i'r her drwy sicrhau tai fforddiadwy i bobl leol**
- **Ceisio addasrwydd stoc tai i sicrhau balans o ran y ddarpariaeth**
- **Adnabod cyfleoedd, o leiaf mewn ardaloedd lle mae rhestri gwan, i gysylltu gyda'r Aelod Lleol i drafod y sefyllfa ynghyd â theilwra dulliau marchnata**
- **Ystyried y posibiliadau i brynu tai sydd ar werth neu yn wag yn ogystal ac adeiladu o'r newydd er mwyn osgoi'r posibilrwydd o greu cymunedau an-hyfyw. Awgrym i drafod newid y pwyslais ac addasu'r trefniant sybsidi yn y tymor hir gyda Llywodraeth Cymru**
- **Gan y bydd y Cyngor Llawn yn ystyried gweithredu Premiwm Ail Dai / Tai Gwag bod posib o ddenu incwm i'w glustnodi ar gyfer tai cymdeithasol, fforddiadwy – bydd angen i'r Bartneriaeth gynnal deialog o benderfyniad y Cyngor ar sut i weithredu hyn.**

## 6. EFFAITH Y DIWYGIAD LLES AR DAI

Cyflwynwyd dwy ddogfen i'r Aelodau - un yn rhannu briff gweithdy diweddar a drefnwyd gan y Cymdeithasu Tai a Chyngor Gwynedd i drafod oblygiadau'r Lwfans Tai Lleol ynghyd a drafft cychwynnol o gynllun gweithredu.
Amlygodd y Rheolwr Strategol bod y rhaglen waith yn ddogfen fyw yn bennaf oherwydd y bydd newidiadau pellach mewn trefniadau budd-daliadau ar y gorwel. Pwysleisiwyd bod angen bod yn effro i'r newidiadau hyn ac i'r effaith ar drigolion y Sir.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol:

- Cap isel yng Ngwynedd ac felly angen tynnu sylw cenedlaethol at hyn. Rhaid codi ymwybyddiaeth ar anhawster o ganfod eiddo i'w rentu
- Bod y sefyllfa yn ddigalon, yn anodd a diflas i deuluoedd bregus
- Awgrym i gysylltu gyda'r Aelodau Seneddol a'r Aelod Cynulliad
- Rhaid ystyried methodoleg – angen adolygu cap Gwynedd
- Rhaid plethu'r cynllun gyda Strategaethau eraill Sirol e.e., Yr Economi - rhaid ceisio cael mwy o bobl i waith - plethu gyda strategaethau uwch i geisio datrysiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwaith yn cael ei wneud i adnabod teuluoedd fyddai yn teimlo effaith newidiadau mewn budd daliadau (Budd-dal Tai a Budd-dal Gwaith - addasiadau 7.11.16), nodwyd bod 53 teulu wedi eu hadnabod gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) sydd mewn sefyllfa fregus. Nodwyd bod CCG yn cydweithio gyda Thîm Rent ac yn paratoi ymlaen llaw i geisio datrysiad. Yng nghyd-destun Credyd Cynhwysol amlygwyd bod 60 unigolyn wedi ei adnabod a bod CCG yn gweithio yn agos gyda Cynefin i geisio datrysiad. Amlygwyd bod rhaid i'r gwaith o adnabod tenantiaid bregus barhau.

**Penderfynwyd**

- **Croesawu bod y cynllun gweithredu wedi cael ei gyflwyno.**
- **Bod angen tynnu sylw'n genedlaethol bod y cap mor isel yng Ngwynedd - rhaid canfasio i addasu'r fethodoleg a phwyso i'w newid. Cynigiwyd gwahodd yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i drafod y sefyllfa yng Ngwynedd**

- **Bod angen parhau i gyd-weithio gyda thenantiaid i'w rhybuddio am effaith y newidiadau**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD (2015-2016)

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) 2015 - 2016. Cyfeiriwyd at y Cytundeb Trosglwyddo a nodwyd bod yn ofynnol iddynt nodi sut maent wedi gwireddu'r addewidion a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig a gweithredu goblygiadau dan y Cytundeb Trosglwyddo. Amlygwyd bod canlyniadau'r adroddiad yn galonogol ac yn cael effaith gwerthfawr ar yr economi.

Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Llongyfarchwyd CCG ar dderbyn gwobr Caffael Cenedlaethol Cymru ac ar eu hadroddiad budd cymdeithasol positif.
- Cymeradwywyd datblygiadau o'r newydd, ond angen sicrhau mwy o unedau ar gyfer pobl hŷn ac unedau un llofft.
- Angen datrys cyfrifoldebau cynnal tiroedd mewn lleoliadau aml-berchnogaeth, gan roi ystyriaeth i'r diffyg hyblygrwydd yn y trefniadau talu
- Dirywiad safonau ceginau, er enghraifft yn debygol o ddod gyda'i gilydd ac felly rhagweld y bydd angen buddsoddiad pellach
- Cais i gryfhau cyswllt yr aelodau lleol - adnodd gwerthfawr i bontio cysylltiadau

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chwmni allanol yn llunio'r adroddiad, nodwyd bod proses tendro wedi ei dilyn oedd yn agored i bawb ac mai cwmni o Belfast oedd wedi llwyddo. Amlygwyd bod Menter Môn a chwmni o Bae Colwyn wedi cyfrannu mewnbwn lleol i'r adroddiadau

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gofal cwsmer, nodwyd bod ystadegau gofal cwsmer yn is na'r disgwyl ac mai'r gwasanaeth trwsio oedd yn rhan o hyn. O ganlyniad, nodwyd bod y sefyllfa yn cael ei adolygu a bod gwaith yn cael ei wneud i drawsnewid er mwyn gwella effeithlonrwydd gofal cwsmer. Adroddwyd bod peilot wedi ei wneud a bod pethau yn ymddangos yn well.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â derbyn yr adroddiad, adroddodd y Rheolwr Strategol Tai bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal pob 6 mis gyda CCG i adolygu'r gwerthoedd a'r addewidion. Derbyniwyd bod nifer o addewidion wedi eu gaddo, ond bellach teimlwyd bod CCG wedi cyflawni'r addewidion hynny ac felly derbyn bod hyn wedi ei gwblhau. Cadarnhawyd hyn gan yr Aelod Cabinet.

Amlygodd Prif Weithredwr CCG bod y cwmni bellach yn symud i gyfnod o ddatblygu ac eisiau cyflawni mwy o fewn cymunedau. Gwaed cais iddynt gael eu trin fel partner cyfartal - fel y gwasanaethau tai eraill.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad ac i gynrychiolwyr Cartrefi Cymunedol Gwynedd am fynychu'r cyfarfod.

**Penderfynwyd**

- **Derbyn y cyngor proffesiynol bod CCG wedi cyflawni addewidion y Ddogfen Gynnig yn amodol ar y pwyntiau isod:**
- **Croesawu y dylid cadw perthynas agos gyda CCG hyd yn oed ar ôl cwblhau addewidion y Cytundeb**
- **Llongyfarch llwyddiant y broses caffael gyda'r buddsoddiad a gafwyd yn lleol**

- **Bod angen datrys cyfrifoldebau cynnal tiroedd mewn Stadau Tai Aml berchnogaeth**
- **Bod angen chwilio i fodlonrwydd cwsmer yn dilyn perfformiad is na'r disgwyl gydag awgrym i ymestyn y cynllun peilot os yw yn profi yn llwyddiannus**
- **Bod angen sicrhau bod y rhaglen waith yn cynnwys buddsoddiad i sicrhau bod safon y stoc yn gyson ar draws y Sir**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 24 Ionawr 2017 |
| **TEITL** | Toriadau Rheolaeth Traethau |
| **AWDUR** | Llŷr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Mandy Williams-Davies |
| **PWRPAS** | Cyflwyno adroddiad ar gais cyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Yng nghyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu penderfynwyd gofyn am adroddiad ar effaith y toriadau yng nghyllidebau rheoli traethau a gymeradwywyd gan y Cyngor. Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno gwybodaeth am y toriadau hyn gan ystyried a gafwyd unrhyw ganlyniadau annisgwyl i'r toriadau.

**2. TORIADAU SYDD WEDI EU CYMERADWYO**

2.1 Yn hanesyddol mae'r Adran Economi a Chymuned, drwy'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig â chyfrifoldeb am agweddau rheoli hyd at 301km o arfordir o safbwynt iechyd a diogelwch, cynnal a chadw, glanweithdra a rheoli cychod pŵer a jetskis a gweithgareddau hamdden arfordirol. Mae cyfrifoldebau hefyd yn cynnwys rheoli parcio a mynediad cerbydau, badau pŵer a chychod pleser, cofrestru lansio cychod, rheoli gorchymyn cŵn, a goruchwylio diogelwch ar y traethau.

2.2 Wrth ystyried toriadau posib fe ymgorfforwyd gwahanol opsiynau fel toriadau posib gan gyfeirio ar nodweddion gwobrau traeth fel sef

i. Dileu'r holl wasanaeth o reoli traethau (arbediad o £81,900)
ii. Rheoli traethau Baner Las yn unig (arbediad o £55,700)
iii. Rheoli traethau Baner Las a Baner Werdd yn unig (arbediad o £24,200)

2.3 Mewn cyfarfod ar 3ydd o Fawrth 2016, bu i'r Cyngor llawn benderfynu gweithredu ar raglen o doriadau er mwyn cyfarch bwlch ariannol. Un o'r toriadau o fewn y rhaglen honno oedd i'r Cyngor reoli traethau Baner Las a Baner Werdd yn unig.

2.4 Golyga'r toriad yma gyfyngu gweithgareddau rheoli traethau sydd wedi ennill gwobrau Baner Las neu Baner Werdd yn unig megis Abermaw, Dinas Dinlle, Aberdaron,

Abersoch, Pwllheli, Morfa Bychan, Tywyn, , Criccieth, Aberdyfi, Harlech, Llandanwg, Fairbourne a Phorth Neigwl.

2.5 Wrth ystyried effeithiau rheoli traethau Baner Las a Baner Werdd yn unig ragwelwyd y byddai oblygiadau megis :

- Dim trefniadau rheoli ar gyfer traethau eraill y sir
- Cynyddu risgiau diogelwch
- Tanseilio enw da'r lleoliadau ar gyfer gweithgareddau arfordirol
- Effaith negyddol ar y sector dwristiaeth yn y cymunedau hyn.

2.6 Nid yw'r swyddogaeth rheoli traethau yn un statudol, ac ystyriwyd y byddai paratoi asesiadau risg ar gyfer pob traeth er mwyn ystyried arwyddion ac / neu fesurau rheoli amgen.

**3. TREFNIADAU AR GYFER GWEITHREDU'R TORIADAU A GYMERADWYWYD**

3.1 Yn dilyn penderfyniad y Cyngor llawn ar 3ydd o Fawrth 2016, daeth y rhaglen o doriadau yn weithredol, a chyllidebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/7 yn adlewyrchu hynny.

3.2 Serch hynny, wrth lunio trefniadau ar gyfer gweithredu'r toriadau yn syth fe amlygwyd nifer o faterion, gan gynnwys

- Cyfnod gweithredu rhwng y penderfyniad a chychwyn tymor ymwelwyr yn gyfyng
- Fod y Gwasanaeth yn awyddus iawn i geisio lliniaru effeithiau posib oedd wedi eu rhagweld
- Angen i sicrhau fod mesurau diogelwch amgen mewn grym
- Cyfleoedd posib i gydweithio gyda sefydliadau lleol ar gyfer trefniadau rheoli amgen

3.3 O ganlyniad, gwelwyd tymor 2016 fel cyfnod trosiannol, ac er bod cyllidebau wedi ei lleihau fe osodwyd trefniadau interim mewn rhai traethau. Dyma grynodeb o'r trefniadau a osodwyd yn 2016 :

a) <u>Traethau Nefyn a Morfa Nefyn</u>

Gosodwyd trefniadau interim yn seiliedig ar drefniant blaenorol o gyd-weithio gyda Chyngor Tref Nefyn ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan ddarparu wardeiniaid traeth ar gyfer tymor 2016. Mae'r Gwasanaeth wedi cadarnhau na fydd y trefniant yn parhau ar gyfer tymor 2017. Nid oes gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb fel perchennog tir am y traeth na'r blaendraeth, ac ystyriwyd y byddai cynorthwyo gyda

threfniadau interim yn ystod 2016 yn cynnig cyfle i'r sefydliadau perthnasol osod trefniadau amgen mewn lle.

b) Traeth Machroes, ger Abersoch

Mae'r traeth yn Machroes yn ffinio gyda thraeth Baner Las Abersoch, ac yn cyfrannu at swyddogaethau'r prif draeth. Ystyrir fod cyfle i gyd-weithio gyda sefydliadau lleol a'r sector fusnes ar gyfer datblygu trefniant amgen. Yn ystod 2016, adolygwyd trefniadau talu am barcio gan greu incwm ychwanegol a chyfarch y toriad ariannol. Rhagwelir y bydd angen cyfnod pellach ar gyfer datblygu trefniant amgen.

c) Traeth Trefor

Gosodwyd trefniadau newydd ar draeth Trefor, gan beidio penodi warden traeth yn ystod 2016 a chyfyngu mynediad cerbydau i'r traeth. Ystyrir fod cyfleoedd pellach i gyd-weithio gyda chymdeithas leol er mwyn adeiladu ar drefniadau llynedd a ffurfioli trefniadau a mynediad addas i ddeiliaid angorfeydd blynyddol yn yr ardal.

d) Traeth Abererch (Glandon)

Dim newid – trefniadau eisoes yn weithredol

e) Traeth Llanbedrog

Mesurau i reoli mynediad cerbydau i'r traeth wedi bod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd bellach. Trefniadau eisoes yn weithredol.

3.4 Wrth reswm, roedd y gwaith o newid trefniadau rheoli traethau yn y lleoliad uchod yn ychwanegol i'r ymdrechion i ddarparu cyfleusterau a gwasanaeth yn y traethau Baner Las a baner Werdd.

**4. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION**

4.1 Mae hyd arfordir Gwynedd yn hirach nag unrhyw arfordirol sirol arall yng Nghymru. Mae'r adnoddau'r arfordir yn cynnig nifer o swyddogaethau ac yn asedau pwysig i'r ardal.

4.2 Wrth adnabod ac ystyried gwahanol opsiynau allai gyfrannu at y rhaglen doriadau rhoddwyd ystyriaeth effaith toriadau o'r fath. Fel ag amlinellir uchod, mae'r gwaith o weithredu'r toriadau a gymeradwywyd eisoes ar waith, and mae angen gwaith pellach

i’w gweithredu yn llawn. O ganlyniad, mae’n debyg ei bod yn gynamserol i geisio tystiolaethu effaith y toriadau hyd nes eu bod wedi eu gweithredu’n llawn.

4.3 Serch hynny, wrth ystyried effaith y toriad i ‘reoli traethau Baner Las a Baner Werdd yn unig, rhagwelwyd fod oblygiadau posib (fel y nodir yn rhan 2.5 o’r adroddiad yma). Wrth osod trefniadau ar gyfer gweithredu’r toriadau, mae pob ymdrech wedi ei wneud gan y Gwasanaeth geisio lleihau ac / neu liniaru effeithiau o’r fath.

4.4 Hyd yma, mae’r sgil effeithiau'r toriadau yn gyson gyda’r hyn oedd wedi ei ragweld. Mae’n wir dweud fod swyddogaeth rheoli traethau hefyd yn ddibynnol a chael ei dylanwadu gan ffactorau tu hwnt i’n rheolaeth. Serch hynny, ni ystyrir fod canlyniadau annisgwyl yn sgil y toriad yn wahanol i’r hyn oedd wedi ei ragweld.

4.5 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu i ystyried cynnwys yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD** | **24 Ionawr, 2017** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar gynnydd y Gwasanaeth Cymunedau Iach i gwrdd gyda thargedau arbedion effeithlonrwydd a'r ymateb i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru** |
| **AWDUR** | **Ian Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned** |
| **AELOD** | **Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **PWRPAS** | **1. Craffu'r cynnydd hyd yma i wireddu arbedion effeithlonrwydd fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor 2015 -2018**<br>**2. Craffu ymateb y Gwasanaeth i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar wasanaethau hamdden.** |

## 1. Cefndir

1.1. Mae aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi nodi dymuniad i graffu ymateb y Gwasanaeth i'r adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru '*Cyflawni â llai - Gwasanaethau Hamdden*'. Fel rhan o hynny ystyrir y byddai'n fuddiol hefyd i'r Aelodau graffu cynnydd y Gwasanaeth i gyflawni'r targed arbedion effeithlonrwydd fel y gosodwyd gan Strategaeth Ariannol y Cyngor 2015-2018.

## 2. Rhaglen Arbedion Effeithlonrwydd 2015-2018

2.1. Fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2017/2018 gosodwyd targed arbedion effeithlonrwydd i'r Gwasanaeth Cymunedau Iach o £1,053m. Roedd hyn gyfystyr â 56% o'r gyllideb dan reolaeth neu 26% o'r gyllideb lawn am y flwyddyn ariannol 2015/2016.

2.2. Fel ymateb i'r targed hwnnw, fe ddaru'r Gwasanaeth ddatblygu saith cynnig oedd gyda'i gilydd yn cyfarch y targed erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth Ariannol dan sylw.

2.3. Derbyniwyd cymeradwyaeth y Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr, 2014 i weithredu'r cynigion ac aethpwyd ati i'w gweithredu o Ebrill, 2015 ymlaen. Gweler yn **Atodiad 1** manylion o'r cynigion ynghyd â chrynodeb byr o'r cynnydd hyd yma.

2.4. Hyd yma, mae'r Gwasanaeth wedi cyflawni gwerth £660,894 o'r targed gyda £135,758k pellach i'w gyflawni yn 2017/2018. Mae hynny £256,500 yn fyr o'r targed ac felly, gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo ail-broffilio'r swm hynny i'w gyflawni yn 2018/2019.

2.5. Bydd y Gwasanaeth yn paratoi cynlluniau ar gyfer cwrdd gyda'r diffyg yn fuan yn y flwyddyn ariannol 2017/2018 er mwyn sicrhau bod modd eu gweithredu yn 2018/2019.

**3. Ymateb i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru 'Cyflawni a Llai – Gwasanaethau Hamdden'**

3.1. Ym mis Rhagfyr, 2015 cyhoeddodd yr Archwilydd adroddiad oedd yn nodi fel ei brif argymhelliad y canlynol:

'*Wrth gyflenwi gwasanaethau hamdden, mae cynghorau'n canolbwyntio ar ymdrin â heriau ariannol byrdymor yn hytrach nag ystyried mewn modd strategol sut i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol*'.

3.2. Nodwyd hefyd pedwar o argymhellion cyffredinol pellach oedd yn berthnasol i wasanaethau hamdden ledled Cymru sef:

3.2.1. *Gwella gwaith cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden.*

*3.2.2. Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn canfod y model cyflenwi mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytunedig y cyngor a'i flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden.*

*3.2.3. Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad gwasanaethau hamdden drwy sefydlu cyfres o fesurau er mwyn galluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith.*

*3.2.4. Gwella'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yn y gwasanaethau hamdden*.

3.3. Mae cynnydd tuag at weithredu nifer o agweddau'r argymhellion wedi ei wneud a gellir derbyn manylion o'r cynnydd hwnnw pe byddai dymuniad i wneud hynny.

3.4. Fodd bynnag, o safbwynt yr argymhelliad a nodir o dan 3.2.2 uchod, mae'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd, 2016 wedi cymeradwyo cynnal arfarniad ar y model cyflenwi mwyaf priodol. Disgwylir bydd y Pwyllgor Craffu yn derbyn adroddiad ym mis Medi, 2017ar y model priodol i Wynedd er mwyn gwireddu'r amcanion canlynol:

- Yr un neu well gwasanaeth am gost lai;
- Gwell mynediad at gyllid amgen;
- Gallu i hyrwyddo a diogelu'r Iaith Gymraeg o fewn hamdden a chwaraeon yng Ngwynedd;
- Gwell defnydd effeithiol o gymhorthdal y Cyngor;
- Hyblygrwydd i newid ac i gwrdd gyda heriau newydd;
- Uchafu cyfraniad y ddarpariaeth i gwrdd gydag amcanion strategol y Cyngor

4. O safbwynt y ddau fater dan sylw felly, sef i) cynnydd y Gwasanaeth i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a ii) cynnydd y Gwasanaeth i ymateb i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar wasanaethau hamdden, mae'r Gwasanaeth wedi derbyn manylion ar ba agweddau byddai'r Aelodau yn awyddus i'w craffu mewn manylder a gweler ymateb llawn i'r cwestiynau hynny yn **Atodiad 2**.

## Atodiad 1 - Rhaglen Arbedion y Gwasanaeth Cymunedau Iach

| Cynllun | Teitl | Disgrifiad | Swm | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| HAM1 | Adolygu a rhesymoli strwythurau rheoli newydd Canolfannau Hamdden | Adolygu'r sefyllfa bresennol o gael Rheolwr Canolfan Hamdden ymhob safle, a chreu swyddi Rheolwr Ardal, gyda chyfrifoldeb dros nifer o gyfleusterau Hamdden o fewn dalgylch diffiniedig. | **£135,897** | Wedi ei gyflawni yn 2015/2016 |
| HAM2 | Cynyddu lefelau ffioedd | Cynyddu lefel cyffredinol ffioedd hamdden 2% dros lefel chwyddiant am y tair blynedd nesaf | **£147,000** | Wedi ei gyflawni yn 2015/2016 a 2016/2017. Bydd hefyd wedi ei gynnwys yn ffioedd a phrisiau 2017/2018. |
| HAM3 | Adolygu a rhesymoli strwythurau canolog Gwasanaeth Cymunedau Iach | Adolygu strwythurau canolog Gwasanaeth Cymunedau Iach gan edrych i gyfuno dyletswyddau a chyfrifoldebau ymysg rheolwyr a staff | **£68,887** | Bydd wedi ei gyflawni yn llawn erbyn diwedd 2016/2017. |
| HAM4 | Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol | Lleihau lefel sybsidi presennol y Cyngor ar gyfer y ddarpariaeth o ganolfannau hamdden. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen cyfres o brosiectau trawsnewidiol ar draws Gwynedd sydd gyda ffocws penodol fesul dalgylch / canolfan hamdden. Mae hynny'n golygu gall y cynnig presennol fod yn lleihau yn sylweddol neu yn cael ei ddarparu'n wahanol a hynny'n gwbl ddibynnol ar y cyfleon sydd ar gael. | **£639,758** | Bydd £383,258 wedi ei gyflawni erbyn 2017/2018 a bwriedir ail-broffilio'r gweddill i'w gyflawni yn 2018/2019. |
| HAM5 | Cynnal Tiroedd | Lleihau gwariant ar gynnal tiroedd drwy newid cytundeb | **£20,000** | Wedi ei gyflawni yn 2016/2017. |
| HAM6 | Neuadd Chwaraeon Arfon Bangor | Dod a chytundeb presennol ar gyfer defnydd o'r ganolfan gan drosglwyddo'r cyfleuster yn llawn i Goleg Menai neu yn rhannol i'r Brifysgol. | **£25,730** | Wedi ei gyflawni yn 2015/2016 ond fel canlyniad, mae'r cyfleuster ar gau i'r cyhoedd (penderfyniad Coleg Menai sy'n berchen yr adeilad) |
| HAM7 | Trac Treborth | Dod a chytundeb presennol ar gyfer defnydd tir i ben gan drosglwyddo'r asedau i'r Brifysgol. Byddai hynny yn cynnwys y trac athletau a'r offer sydd ar y safle | **£15,880** | Wedi ei gyflawni yn 2016/2017 |

## Atodiad 2 – Cwestiynau Penodol i'w craffu

**1. Mae Cynllun HAM 2 yn yr atodiad i'r adroddiad yn dangos cynnydd mewn incwm o ffioedd o £147k. Beth yw'r rhagolygon am gynnydd pellach mewn ffioedd y tu hwnt i 2017/18?**

1.1. Mae lefelau ffioedd a thaliadau am ddefnydd o gyfleusterau hamdden yn cael eu pennu pob blwyddyn trwy adolygiad ffioedd. Am y tair blynedd hyd at ddiwedd 2017/2018 mae'r adolygiad hynny wedi angen cyfarch nid yn unig y cynnydd yn sgil yr angen i wneud arbedion effeithlonrwydd ond hefyd y cynnydd arferol yn y targed chwyddiant. Ar gyfer 2017/2018, mae hynny yn golygu cynnydd mewn ffioedd cyffredinol o 3.75% sy'n gyfystyr a derbyn incwm ychwanegol o £97,430.


1.2. Mae lefelau ffioedd am ddefnyddio cyfleusterau Cyngor Gwynedd yn is na'r hyn a welir yn sector breifat y Sir ond yn gymharol gyda siroedd cyfagos. Rydym yn eu cymharu yn gyson er mwyn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn cael cynnig gwerth am arian.

1.3. O wybod hynny, bydd angen bod yn ofalus wrth ystyried a oes cyfle i gynyddu ffioedd yn uwch na'r targed chwyddiant o 2018/2019 ymlaen. Hynny oherwydd ei fod yn bosib i'r Gwasanaeth gynyddu ffioedd i'r pwynt ble mae trigolion Gwynedd yn ystyried bod y pris yn rhy uchel. Byddai hynny yn arwain at leihau defnydd ac felly, yn creu risg o leihau'r incwm yn sylweddol.


1.4. O ganlyniad, mae'r rhagolygon y bydd angen cynyddu ffioedd yn uwch na'r targed chwyddiant i'w ystyried a dim ond wrth weld beth fydd effaith y cynnydd ar gyfer 2017/2018 y gellid cadarnhau os bydd cyfle i gyflwyno cynnydd pellach o 2018/2019 ymlaen.

**2. Pa gamau sydd wedi eu cymryd i gynyddu lefelau defnydd hyd yma fel ffordd arall o gynyddu incwm?**

2.1. Mae lefelau defnydd o ganolfannau hamdden yng Ngwynedd yn gymharol uchel yn barod i'w gymharu gyda Chymru. Ar sail gwybodaeth 2015/2016, gweler bod Gwynedd y trydydd uchaf yng Nghymru o safbwynt Nifer Ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth.




2.2. Mae'r perfformiad wedi parhau i gynyddu ers hynny ac mae'r data diweddaraf yn dangos tuedd bositif iawn.




** Dalier sylw – nid yw'r uchod yn cynnwys niferoedd Rhagfyr, 2016 – Mawrth, 2017*

2.3. Mae'r camau sydd wedi eu cymryd i gynyddu defnydd ers 2013/2014 fel a ganlyn:

- **Adnewyddu Offer Ffitrwydd** – mae'r Gwasanaeth wedi adnewyddu offer ffitrwydd mewn sawl canolfan yn ystod 2016 sydd wedi cynyddu'r canran aelodaeth i'r canolfannau hynny o 13.34% ar gyfartaledd. Ar sail y cynnydd hynny, datblygwyd achos fusnes er mwyn sicrhau bod gweddill y canolfannau yn derbyn offer ffitrwydd newydd ym mis Chwefror, 2017.

- **Uwchraddio Cyfleusterau** – mae'r Gwasanaeth wedi uwchraddio sawl canolfan gan ddefnyddio cyfuniad o gyllideb mewnol a grantiau allanol. Byddwn yn parhau i wneud hynny ar sail datblygu achosion busnes fesul canolfan unigol.

- **Dosbarthiadau Ffitrwydd** – mae'r Gwasanaeth wedi trawsnewid ei gynnig o ddosbarthiadau ffitrwydd ers 2014. Erbyn hyn, darperir 200 o ddosbarthiadau ffitrwydd pob wythnos sy'n gynnydd o 60% dros y cyfnod. Mae'r amrediad o ddosbarthiadau a ddarperir yn awr gyda'r gorau yng Nghymru ac ar y blaen o'r hyn a gynigir gan eraill o fewn y sector yng Ngwynedd.

- **Beicio** - Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd mantais o'r galw lleol am ddosbarthiadau beicio yn benodol a darperir amrediad o'r beiciau diweddaraf er mwyn cefnogi'r galw. Mae hynny yn cynnwys tair canolfan sydd bellach yn cynnig dosbarthiadau 'Spivi' a 'Wattbikes' sy'n defnyddio meddalwedd arloesol o America er mwyn tracio a dangos perfformiad y defnyddwyr ar sgrin fawr.

- **Dosbarthiadau Nofio** - Mae'r nifer plant sy'n mynychu gwersi nofio yn y Sir wedi cynyddu o 2,714 yr wythnos yn 2014 i 2,846 yr wythnos ym mis Tachwedd, 2016 a bellach mae'r dosbarthiadau wedi cyrraedd 72% o'r capasiti sydd ar gael . Yn ogystal, mae cyfnod y gwersi nofio wedi cynyddu o 42 wythnos y flwyddyn i 46 wythnos y flwyddyn mewn sawl canolfan erbyn hyn sy'n golygu bod plant yn dysgu yn gynt ac yn symud trwy'r gwahanol ddosbarthiadau yn amserol. Mae'r newid yma hefyd wedi lleihau'r rhestri aros am lefydd mewn canolfannau fel Canolfan Hamdden Arfon a Chanolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor.

- **Strategaeth Marchnata** - rydym yn defnyddio'r technegau diweddaraf wrth farchnata'r cynnig i drigolion Gwynedd. Mae'r strategaeth bresennol yn cynnwys gwneud y gorau o gyfryngau cymdeithasol a'r we er mwyn gwerthu'r cynnig. Yn ogystal, mae delweddau a phosteri o fewn y canolfannau wedi eu trawsnewid gydag agweddau proffesiynol bellach yn cael eu harddangos. Byddwn yn adeiladu ar hyn yn Chwarter 4, 2016/17 gan fewnosod meddalwedd 'Brief Your Market' newydd er mwyn gallu cyfathrebu gyda defnyddwyr presennol, cyn ddefnyddwyr a hefyd trigolion sydd ddim yn ddefnyddwyr ar hyn o bryd trwy ddulliau cyfathrebu newydd.

**3. Pa fath o effaith y mae'r Cynllun Taliad Misol wedi ei gael ar broffil incwm y Gwasanaeth? I ba raddau y mae'r cynnig o ddisgownt i staff sector gyhoeddus wedi bod yn llwyddiant?**

3.1. Mae'r Gwasanaeth yn cynnig ystod eang o wahanol becynnau misol sy'n caniatáu i ddefnyddwyr dalu ymlaen llawn am gael mynediad i ganolfannau er mwyn gwneud gweithgareddau. Gellir archebu pecyn am fis yn unig neu am gyfnod

hirach trwy dalu trwy ddebyd uniongyrchol. Y nod ydi cynnig hyblygrwydd i ddefnyddwyr benderfynu pa becyn sydd fwyaf addas iddynt fel unigolion yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau a'u hanghenion.

3.2. Mae galw cynyddol am y math yma o ddarpariaeth gan ein defnyddwyr gan ei fod yn hwyluso trefniadau ac yn lleihau'r amser cyswllt gyda derbynfeydd y canolfannau. Un enghraifft benodol o hyn ydi gyda'r gwersi nofio ble gwelwyd hyd yma yn 2016/2017 fod 1,196 o rieni yn talu am wersi nofio trwy becyn debyd uniongyrchol nofio. Mae hynny gyfystyr â 40% o'r holl blant sy'n mynychu'r rhaglen gwersi nofio a gwelir rhai canolfannau gyda chanrannau llawer uwch e.e. dros 80% % ym Mhwll Nofio Bro Ffestiniog.

3.3. Erbyn hyn, gwelir mai'r pecynnau misol yw'r brif ffynhonnell incwm ar gyfer y Gwasanaeth a chesglir bron i £1m o incwm yn flynyddol trwy'r pecynnau. Mae hynny yn gynnydd o 54% rhwng Ebrill, 2014 a Rhagfyr, 2016.

3.4. O safbwynt y Cynllun Disgownt Corfforaethol, cyflwynwyd y pecyn hwn fel rhan o becyn ehangach o fuddiannau i staff y Cyngor. Erbyn hyn, mae'r cynllun wedi cael ei ymestyn i gyrff cyhoeddus eraill (e.e. Parc Cenedlaethol Eryri, Gwasanaethau Tân ac Ambiwlans, Yr Heddlu) ac mae cynlluniau i'w ymestyn ymhellach.

3.5. Mae'r Cynllun Disgownt Corfforaethol yn cynnig gostyngiad o 20% i'w gymharu gyda phecyn debyd uniongyrchol llawn (£24 y mis i'w gymharu gyda £29.50) ac mae'n caniatáu defnydd o'r holl adnoddau a'r rhan fwyaf o weithgareddau o fewn y canolfannau am ddeuddeg mis.

3.6. Ar hyn o bryd (ar sail gwybodaeth mis Tachwedd, 2016) gwelir fod 410 o unigolion yn cael mantais o'r cynllun sy'n denu incwm blynyddol o £98,400 (heb TAW) i'r Gwasanaeth. Ar gyfartaledd, mae defnyddwyr sy'n manteisio ar y pecyn llawn o £29.50 yn gwneud hynny am wyth mis o'r flwyddyn yn unig. Gyda'r Cynllun Disgownt Corfforaethol mae rhaid talu am ddeuddeg mis cyfan felly, mae'r Gwasanaeth yn elwa o £17,767 y flwyddyn wrth gynnig y pecyn.

3.7. Yn anffodus, nid yw'n bosib cyfrifo faint o'r defnyddwyr hyn byddai wedi ymaelodi onibai bod y Cynllun Disgownt Corfforaethol mewn lle.

**4. Mae HAM 4 yn yr atodiad yn sôn am leihau lefel y sybsidi a rhedeg canolfannau yn fwy effeithiol ac mae'r ffigwr o dros £600k ar gyfer hwnnw yn sylweddol iawn. Pa fath o gynlluniau wedi eu cyflawni i wireddu hyn?**

4.1. Er mwyn cyrraedd y ffigwr o £640k mewn arbedion effeithlonrwydd, mae'r Gwasanaeth wedi gorfod edrych ar nifer o wahanol agweddau a hynny mewn manylder. Fel y gwyddai'r Aelodau, cwblhawyd adolygiad dichonolrwydd gan

gwmni ‘Just Solutions’ yn Hydref, 2013 ar y ddarpariaeth Hamdden yng Ngwynedd. Nodai’r adroddiad hwnnw gyfres o argymhellion ar gyfer cyflawni arbedion effeithlonrwydd a seiliwyd nifer o’r cynigion ar gyfer gwireddu’r targed ar yr argymhellion hynny. Mae’r rhestr isod yn nodi’r holl gynlluniau o fewn HAM4 gan nodi effaith y cynllun ar y gyllideb o safbwynt cynyddu incwm nei lleihau gwariant.

| **Cynllun** | Cynnydd hyd at ddiwedd Rahgfyr, 2016 | Effaith ar y Gyllideb h.y. Cynyddu Incwm / Lleihau Gwariant |
|---|---|---|
| **Adnewyddu Offer Ffitrwydd (gweler 2.3 uchod)** | Wedi ei gyflawni gyda chynllun arall ar waith erbyn Chwefror, 2017. | Cynyddu Incwm |
| **Cynyddu’r nifer o ddosbarthiadau ffitrwydd (gweler 2.3 uchod** | Wedi ei gyflawni. | Cynyddu Incwm |
| **Beicio (gweler 2.3. uchod)** | Wedi ei gyflawni. | Cynyddu Incwm. |
| **Dosbarthiadau Nofio (gweler 2.3. uchod).** | Ar waith | Cynyddu Incwm. |
| **Strategaeth Marchnata (gweler 2.3 uchod).** | Ar waith | Cynyddu Incwm. |
| **Adolygu trefniadau iechyd a diogelwch.** | Cwblhawyd adolygiad llwyddiannus o drefniadau’r gwasanaeth er mwyn gweld lleihau gwariant ar sail asesiad risg. Mae’r gwaith hynny wedi arwain at leihau presenoldeb staff ar ochr pwll ac mewn canolfannau ar adegau distaw. | Lleihau Gwariant. |
| **Adolygiad o Strwythurau Staffio** | Mae pob canolfan wedi cwblhau adolygiad staffio gan ddiddymu swyddi gwag ac ail-strwythuro ble roedd cyfle i wneud hynny. Dim ond un achos o ddiswyddiad gorfodol bydd rhaid ei wneud. | Lleihau Gwariant. |
| **Cyd – leoli Gwasanaethau** | Er mwyn gwneud y defnydd gorau o’r canolfannau, mae sawl cynllun bellach wedi ei wireddu. Lleolir y Llyfrgell yng Nghanolfan Hamdden | Cynyddu Incwm. |

| | | |
|---|---|---|
| | Glaslyn erbyn hyn a lleolir y ddarpariaeth ' Dechrau'n Deg' o fewn Canolfan Hamdden Plas Ffrancon. | |
| **Datblygiad Canolfannau (gweler 2.3 uchod)** | Wedi ei gwblhau. Cynlluniau pellach dan ystyriaeth ar gyfer Bro Dysynni, Tywyn a Chanolfan Hamdden Arfon. | Cynyddu Incwm |

4.2. Mae'r cynlluniau yma wedi cael effaith bositif ar sefyllfa gyllidebol mwyafrif o'r canolfannau hamdden. Mae'r tabl isod yn nodi'r gwahaniaeth rhwng cyllideb 2013/2014 a 2016/2017 fesul canolfan unigol.

| | Cyllideb Rheoledig | | | | | | Gwahaniaeth yn y Gyllideb | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013/14 | | | 2016/17 | | | Gwariant | | Incwm | | |
| **Canolfan** | Gwariant | Incwm | **Graddfa Adennill** | Gwariant | Incwm | **Graddfa Adennill** | Gwir | Canran | Gwir | Canran | % Cynnydd / lleihad |
| Arfon, Caernarfon | £566,860 | -£414,970 | **73%** | £556,060 | -£430,540 | **77%** | -£10,800 | -1.91% | £ 15,570 | 3.8% | **4%** |
| Tenis, Caernarfon | £283,740 | -£215,170 | **76%** | £250,900 | -£261,550 | **104%** | -£32,840 | -11.57% | £ 46,380 | 21.6% | **28%** |
| Bangor | £585,600 | -£407,180 | **70%** | £523,050 | -£406,610 | **78%** | -£62,550 | -10.68% | -£ 570 | -0.1% | **8%** |
| Plas Ffrancon, Bethesda | £218,390 | -£132,140 | **61%** | £195,170 | -£147,100 | **75%** | -£23,220 | -10.63% | £ 14,960 | 11.3% | **15%** |
| Glaslyn, Porthmadog | £518,450 | -£356,410 | **69%** | £473,710 | -£383,980 | **81%** | -£44,740 | -8.63% | £ 27,570 | 7.7% | **12%** |
| Dwyfor, Pwllheli | £526,260 | -£445,450 | **85%** | £523,320 | -£456,240 | **87%** | -£2,940 | -0.56% | £ 10,790 | 2.4% | **3%** |
| Plas Silyn, Penygroes | £228,510 | -£145,440 | **64%** | £183,520 | -£146,270 | **80%** | -£44,990 | -19.69% | £ 830 | 0.6% | **16%** |
| Penllyn, Y Bala | £297,800 | -£141,140 | **47%** | £252,180 | -£142,410 | **56%** | -£45,620 | -15.32% | £ 1,270 | 0.9% | **9%** |
| Pafiliwn, Y Bermo | £168,980 | -£105,340 | **62%** | £110,390 | -£113,550 | **103%** | -£58,590 | -34.67% | £ 8,210 | 7.8% | **41%** |
| Glan Wnion, Dolgellau | £166,810 | -£105,530 | **63%** | £138,200 | -£114,180 | **83%** | -£28,610 | -17.15% | £ 8,650 | 8.2% | **19%** |
| Bro Dysynni, Tywyn | £379,900 | -£252,720 | **67%** | £330,920 | -£204,690 | **62%** | -£48,980 | -12.89% | -£ 48,030 | -19.0% | **-5%** |
| Bro Ffestiniog | £128,690 | -£55,900 | **43%** | £132,180 | -£52,920 | **40%** | £3,490 | 2.71% | -£ 2,980 | -5.3% | **-3%** |
| **Cyfanswm** | £4,069,990 | -£2,777,390 | **68%** | £3,669,600 | -£2,860,040 | **78%** | -£400,390 | -10% | £ 82,650 | 3% | **10%** |

4.3. Mae perfformiad pob canolfan wedi gwella o safbwynt lleihau gwariant a gweler erbyn hyn fod y cyfanswm gwariant wedi gostwng o 9.84%.

4.4. O safbwynt incwm, gweler bod sefyllfa incwm y mwyafrif o'r canolfannau wedi gwella ond gwelwyd dirywiad yng Nghanolfan Hamdden Bro Dysynni, Tywyn. Mae hynny yn bennaf oherwydd lleihad yn y nifer plant sy'n mynychu gwersi nofio yn rheolaidd yn yr ardal a hefyd lleihad yn y targed incwm i'w gymharu gyda 2013/2014.

4.5. Dylid nodi hefyd, bod dwy ganolfan sef Canolfan Tenis Arfon, Caernarfon a Chanolfan Hamdden y Pafiliwn, Y Bermo bellach yn denu incwm uwchlaw lefel y gwariant dan reolaeth i'r Cyngor. Mae hynny yn berfformiad na welwyd o'r blaen ac yn eithriad i'r mwyafrif o ganolfannau yng Nghymru.

4.6. O safbwynt nifer ymweliadau i'r canolfannau, ni welwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd ond fel y nodwyd eisoes yn 2.1 uchod mae'r defnydd yn gymharol uchel beth bynnag. Dylid cymryd i ystyriaeth hefyd bod y Gwasanaeth wedi ail-fewnosod system technoleg gwybodaeth yn ystod y cyfnod rhwng 2014 a 2016 sydd wedi

golygu ein bod wedi glanhau'r data. Hefyd, bu i Ganolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor fod ar gau am 6 mis yn 2015/2016 er mwyn cwblhau gwaith adnewyddu.

4.7. Prif ffactor dros y newid fodd bynnag ydi'r lleihad yn y grant nofio am ddim a dderbynnir gan Chwaraeon Cymru. Mae colli £49k o grant ar gychwyn 2015/2016 wedi golygu lleihad sylweddol yn y sesiynau nofio am ddim a ddarparwyd yng Ngwynedd ac mae hynny yn rhannol yn egluro pam gwelwyd cynnydd mewn siroedd eraill fel Blaenau Gwent sydd wedi derbyn cynnydd yn y grant.

4.8. Mae'r ffactorau hynny wedi cael effaith ar y perfformiad ond mae'r perfformiad yn parhau i fod yn uchel i'w gymharu gyda gweddill Cymru. Gweler isod dabl sy'n nodi'r nifer ymweliadau fesul canolfan unigol.

| | **Defnydd** | | |
|---|---|---|---|
| **Canolfan** | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** |
| Arfon, Caernarfon | 277,484 | 249,948 | 392,822 |
| Tenis, Caernarfon | 73,563 | 92,429 | 126,790 |
| Bangor | 218,134 | 218,134 | 196,239 |
| Plas Ffrancon, Bethesda | 71,068 | 77,127 | 47,955 |
| Glaslyn, Porthmadog | 166,459 | 160,981 | 139,923 |
| Dwyfor, Pwllheli | 308,032 | 270,167 | 214,556 |
| Plas Silyn, Penygroes | 86,941 | 82,268 | 84,444 |
| Penllyn, Y Bala | 174,803 | 115,194 | 80,072 |
| Pafiliwn, Y Bermo | 24,819 | 24,819 | 28,461 |
| Glan Wnion, Dolgellau | 53,125 | 53,125 | 61,868 |
| Bro Dysynni, Tywyn | 93,961 | 91,199 | 88,892 |
| Bro Ffestiniog | 30,061 | 36,061 | 26,731 |
| **Cyfanswm** | 1,578,450 | 1,471,452 | 1,488,753 |

**5. Mae'r Cabinet, ym mis Tachwedd, 2016, wedi rhyddhau adnoddau ar gyfer datblygu modelau busnes posib ar gyfer y dyfodol. Pa fath o ddewisiadau y mae'r Gwasanaeth wedi bod yn eu hystyried ar gyfer y dyfodol a beth yw manteision ac anfanteision yr opsiynau sydd yn cael eu hystyried o safbwynt arian a lefel gwasanaeth?**

5.1. Mae'r gwasanaeth yn rhoi ystyriaeth i 3 cyfeiriad posib sef; i) parhau i ddarparu'r gwasanaeth drwy'r model presennol, ii) sefydlu menter gymdeithasol o'r newydd a iii) trosglwyddo i fenter gymdeithasol sydd wedi ei sefydlu'n barod. Mae yna ystod

opsiynau oddi fewn i'r cyfeiriadau yma a'r bwriad rhwng rŵan a mis Mawrth, 2017 ydi edrych yn ddyfnach i oblygiadau a risgiau'r gwahanol fodelau.

5.2. Yng nghyswllt y manteision ac anfanteision ariannol mae rhai o'r modelau yn gymwys ar gyfer rhyddhad o drethi annomestig a threth ar werth fydda yn ei dro yn creu arbedion sylweddol i'r Cyngor. Goblygiadau hyn fodd bynnag yw bod angen i'r corff yno fod yn annibynnol i'r Cyngor ac fe fydda'r Cyngor wedyn yn rheoli'r corff drwy gytundeb. Dros y misoedd nesaf byddwn yn edrych yn ddyfnach i oblygiadau hynny fel bod y Cyngor yn llawn ymwybodol o unrhyw anfanteision posib.

5.3. O ran lefel y gwasanaeth yna'r nod fydd i gynnig yr un lefel o wasanaeth neu well ac wrth werthuso'r opsiynau byddwn yn rhoi sylw trylwyr i adnabod y cyfleoedd a bygythiadau cysylltiedig. Mantais posib er enghraifft yw bod rhai o'r modelau yn gallu denu buddsoddiad o ffynonellau newydd sydd ddim ar gael i'r Cyngor er mwyn gwella'r cynnig gwasanaeth. Yn ogystal, un o brif nodweddion y modelau sy'n cael eu hystyried yw bod unrhyw arbedion ariannol neu incwm ychwanegol yn cael ei ail-fuddsoddi i wasanaethau cyhoeddus lleol.

**6. Mae cynghorau eraill wedi bod yn edrych ar allanoli rheolaeth canolfannau hamdden, rhai ohonynt i ymddiriedolaethau all fod yn dibynnu yn helaeth ar wirfoddolwyr. Beth yw safbwynt y Gwasanaeth ar hynny?**

6.1. Mae gan Gyngor Gwynedd brofiad o allanoli rheolaeth o ganolfan hamdden i wirfoddolwyr gyda Phwll Nofio Harlech. Tra bod yr enghraifft honno gyda'i gryfderau a'i wendidau mae'n amlwg fod y baich ar wirfoddolwyr yn gallu bod yn un beichus a heriol i'r unigolion hynny sy'n gysylltiedig gyda'r ganolfan honno.

6.2. Mae'r Gwasanaeth yn awyddus i gadw'n agored unrhyw gyfle i wirfoddolwyr ddod ymlaen gydag achos busnes i gymryd rheolaeth dros unrhyw ganolfan yng Ngwynedd. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi datblygu Fframwaith er mwyn hwyluso unrhyw drosglwyddiad ar sail yr hyn sydd wedi digwydd yn Harlech ac mewn lleoliadau eraill yng Nghymru a bellach a rhagwelir y byddai'r broses yn haws i'r dyfodol.

6.3. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth yn pryderu am gynaliadwyedd unrhyw fenter o'r fath ac mae risg o golli cysondeb ar draws y Sir. Mae gan y Gwasanaeth drefniadau busnes a sicrwydd ansawdd sirol gan gynnwys rhaglenni hyfforddiant staff a gall yr agweddau hynny fod yn sialens i wirfoddolwyr eu datblygu ar ben ei hunain.

7. **Os oes trafodaethau mewnol ar opsiynau gwahanol i'r dyfodol, faint o drafod sydd wedi bod gyda staff y canolfannau am hynny a beth oedd canlyniadau'r trafodaethau hynny?**

7.1. Mae gan y Bwrdd Prosiect gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr sy'n cynnwys staff y canolfannau yn ogystal â phrif ddeiliaid eraill. Fel rhan o'r cynllun hwnnw, mae'r Uwch Reolwr wedi cyfarfod gyda phob aelod o staff rhwng mis Tachwedd a diwedd Rhagfyr, 2016 er mwyn egluro cyd-destun y gwaith ac i amlinellu'r amserlen gweithredu.

7.2. Yn ogystal, ar sail y trafodaethau hynny darparwyd taflen cwestiwn ac ateb sydd i'w gylchredeg i'r holl staff ar ddiwedd Ionawr, 2017.

7.3. Bydd ymgysylltiad gyda gweddill y budd-ddeiliaid yn cychwyn yn fuan iawn a bydd unrhyw adborth yn cael ei gyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Prosiect yn rheolaidd.

7.4. O safbwynt yr adborth gan staff hyd yma, mae'r ymateb wedi bod yn un positif iawn gan iddynt gydnabod bod angen ystyried ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaeth er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy a llwyddiannus.

8. **Mae paragraff 3.4 yn nodi cyfres o amcanion ar gyfer datblygiad y gwasanaeth i'r dyfodol. Ai dyma feini prawf yr asesiad o'r model busnes i'r dyfodol? A oes modd cwrdd â'r amcanion hyn i gyd neu a oes tensiwn rhwng rhai ohonynt y mae angen i'r Cyngor ei gyfarch?**

8.1. Bydd y modelau posib yn cael eu gwerthuso yn erbyn yr amcanion sy'n cael eu rhestru ym mharagraff 3.4 (blaen adroddiad). Y nod yn naturiol fydd i gyfarch yr amcanion hyn i gyd ond mae'n bosib y bydd rhai modelau yn well na'i gilydd yng nghyswllt rhai amcanion, hynny yw, efallai na fydd un model yn cynnig y datrysiad gorau yng nghyswllt pob amcan. Wrth werthuso'r opsiynau byddwn yn amlygu os oes unrhyw densiwn rhwng rhai o'r amcanion fel bod hynny'n ystyriaeth wrth wneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.

9. **A yw'r Gwasanaeth wedi ystyried y modelau i'r dyfodol yng ngoleuni'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ac oes bwriad i wneud Asesiad Effaith Iechyd ar y cynigion fel rhan o'r ystyriaethau?**

9.1. Mae'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn un o'r gyrwyr dros edrych ar sut ydym yn darparu'r gwasanaeth hamdden i'r dyfodol. Pwrpas y prosiect yma yw adnabod a gweithredu'r model darparu mwyaf addas i gyflawni'r nod sicrhau isadeiledd modern, addas i bwrpas, cynhwysol a chynaliadwy fydd yn ysgogi a

chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach sy'n alinio'n gadarn gyda'r Ddeddf. Yn y tymor byr ni ragwelir y bydd y newidiadau posib yn cael effaith trawiadol ar y cynnig gwasanaeth nag ar iechyd trigolion ond fe fyddai cynnal asesiad effaith iechyd yn darparu gwaelodlin ar gyfer mesur llwyddiant yn y dyfodol.

**10. Roedd adroddiad yr ymgynghorwyr blaenorol (Just Solutions) a fu'n edrych ar y maes yn awgrymu efallai na ddylid edrych am un model ar gyfer y sir ond datblygu model gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol. A yw'r Gwasanaeth yn dal i ystyried hynny neu a yw'n edrych ar sefydlu model ar gyfer y sir gyfan?**

10.1. Ers i'r Ymgynghorwyr Just Solutions Cyf adrodd ym mis Hydref, 2013 mae'r Gwasanaeth wedi ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo rhai cyfleusterau yn ddibynnol ar y cyfleoedd oedd yn bodoli ym mhob ardal.

10.2. Fel rhan o'r Rhaglen Arbedion, trosglwyddwyd Trac Athletau Treborth i Brifysgol Bangor, Neuadd Chwaraeon Arfon i Grŵp Llandrillo / Menai a Neuadd Chwaraeon Harlech i Ysgol Ardudwy ar sail barhaol. Llwyddwyd hefyd i drosglwyddo Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu i Antur Nantlle ar sail les 25 mlynedd. Mewn ardaloedd eraill, rydym wedi cyflwyno modelau gwahanol gan ffafrio cyd-leoli gwasanaethau ble roedd yn briodol.

10.3. Yn ardal Porthmadog, ail-leolwyd y Llyfrgell i'r ganolfan hamdden ac ym Methesda ail-leolwyd meithrinfa 'Dechrau'n Deg' i'r ganolfan hamdden hefyd.

10.4. Fodd bynnag, mae ceisio gwneud hynny ar raddfa sirol yn cymryd amser ac adnoddau oddi wrth ddarparu gwasanaethau dydd i ddydd. Felly, penderfynwyd gweithio ar y cyd gyda gwasanaethau eraill o fewn yr Adran Economi a Chymuned gan ganolbwyntio ar un ardal ar y tro. Ar hyn o bryd, mae'r ffocws ar ardal y Bermo ble mae'r Adran yn asesu ymarferoldeb cyd-leoli gwasanaethau Ieuenctid a Llyfrgell oddi fewn i'r ganolfan hamdden.

10.5 O ganlyniad ac ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn edrych i ddatblygu model darparu amgen ar gyfer y Sir gyfan gan sicrhau hyblygrwydd er mwyn ymateb i unrhyw gyfleoedd sy'n debygol o godi yn ystod y blynyddoedd nesaf.

**Gweithredu Argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Craffu Cludiant Ôl-16 i Addysg Bellach**

**Diweddariad Aelod Cabinet (Ionawr 2017)**

Dyma ddiweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion nad oeddynt wedi'u gweithredu'n llawn yn yr adroddiad diweddaru diwethaf (Medi 2016)

(Wrth gyfeirio at argymhellion penodol, defnyddir y rhifau sydd ar eu cyfer yn y 'Crynodeb o'r Argymhellion' a geir ar dudalennau 7 ac 8 o'r adroddiad gwreiddiol.)

**Noder:**

**Mae Grŵp Llandrillo-Menai wedi nodi nad ydynt, bellach mewn sefyllfa i roi ystyriaeth i weithredu fel asiant ar gyfer gwerthu a dosbarthu'r Tocyn Teithio 16+. Mae hyn yn effeithio argymhelliad 1 a 12b yn uniongyrchol.**





| **Argymhelliad** | | **Beth sydd wedi digwydd a phryd** | **Effaith y gweithredu** |
|---|---|---|---|
| 1 | Er gwella manteision i'r dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd, lleihau prosesau ac yn ysbryd Ffordd Gwynedd, dylid cydweithio'n agosach ac i negodi efo Grŵp Colegau Llandrillo Menai i fod yn asiant i Gyngor Gwynedd | Mae'r Coleg wedi dweud nad ydynt bellach mewn sefyllfa i ystyried gweithredu fel asiant. | Bydd tocynnau yn parhau i gael eu gwerthu trwy Galw Gwynedd. |
| 12b | Ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad craffu argymhellir y dylid ystyried cyfuniad o opsiynau. Opsiynau 3, 6 a 7 - newid i system tocynnau, ***trosglwyddo gwasanaeth cludiant i'r coleg a gweinyddiaeth tocynnau cludiant coleg i Grŵp Colegau Llandrillo Menai.*** | Mae'r Coleg wedi dweud nad ydynt bellach mewn sefyllfa i ystyried gweithredu fel asiant. | Bydd tocynnau yn parhau i gael eu gwerthu trwy Galw Gwynedd. |

Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae gwaith yn parhau gydag argymhellion 2 a 5 isod, ac mae trafodaethau yn parhau gyda Grŵp Llandrillo-Menai a Chonsortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn mewn perthynas ag argymhelliad 7.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Dylid adolygu'r Polisi Cludiant Ôl-16 i sicrhau Polisi addas a phwrpasol i gyfarch gofynion y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r Canllaw Teithio gan Ddysgwyr – Darpariaeth Statudol a Chanllaw Gweithredol Mehefin 2014 | Mae cyfarfodydd unigol wedi'u cynnal gyda'r darparwyr cludiant i geisio dod i gytundeb ynglŷn â hyblygrwydd amser teithio.<br><br>Mae disgwyl cadarnhad ynglŷn â hyblygrwydd amser teithio ar gyfer 2 lwybr. | Mae cytundeb ar hyblygrwydd amser teithio wedi'i gyrraedd ar y mwyafrif o'r llwybrau (pob un ac eithrio 2).<br><br>Erbyn Ionawr 2017 rydym yn disgwyl cadarnhad ynglŷn â hyblygrwydd amser teithio ar gyfer 2 lwybr.<br><br>Ar ôl cael cadarnhad terfynol gan y darparwyr bydd yr wybodaeth ynglŷn â'r llwybrau a'r amseroedd yn cael ei ddiweddaru ar y wefan, a bydd ymgyrch gyhoeddusrwydd i'r hyblygrwydd amser teithio newydd yn cael ei drefnu. |
| 5 | Mae angen cysondeb yn y ddarpariaeth a'r trefniadau ar draws Gwynedd er rhoi cyfle cyfartal a theg i bawb | Mae cyfarfodydd unigol wedi'u cynnal gyda'r darparwyr cludiant i geisio dod i gytundeb ynglŷn â hyblygrwydd amser teithio.<br><br>Mae disgwyl cadarnhad ynglŷn â hyblygrwydd amser teithio ar gyfer 2 lwybr. | Mae cytundeb ar hyblygrwydd amser teithio wedi'i gyrraedd ar y mwyafrif o'r llwybrau (pob un ac eithrio 2).<br><br>Erbyn Ionawr 2017 rydym yn disgwyl cadarnhad ynglŷn â hyblygrwydd amser teithio ar gyfer 2 lwybr.<br><br>Ar ôl cael cadarnhad terfynol gan y darparwyr bydd yr wybodaeth ynglŷn â'r llwybrau a'r amseroedd yn cael ei ddiweddaru ar y wefan, a bydd ymgyrch gyhoeddusrwydd i'r hyblygrwydd amser teithio newydd yn cael ei drefnu. |
| 7 | Mae angen i'r darparwyr addysg ôl-16 gydweithio i roi systemau yn eu lle i gasglu data er darganfod os ydi costau teithio yn arwain i fyfyrwyr ddisgyn allan o addysg bellach | Ym Mhasg 2016, cynhwyswyd cwestiwn penodol ynglŷn â *chludiant cyrsiau partneriaeth* yn holiadur cyffredinol (papur) Llais y Dysgwyr Ôl-16.<br>Doedd dim cwestiwn penodol ynglŷn â chludiant yn gyffredinol.<br>Holiadur oedd hwn ar gyfer myfyrwyr cyfredol, nid myfyrwyr oedd wedi disgyn allan o addysg bellach. | O ddadansoddi'r sylwadau cyffredinol yn yr holiaduron, prin iawn oedd sylwadau yn ymwneud â chludiant, gyda 5 unigolyn allan o 404 yn cyfleu anfodlonrwydd gyda threfniadau cludiant i'r chweched dosbarth yn gyffredinol a'r gost gysylltiedig. Doedd yr un yn nodi eu bod yn ystyried peidio â dilyn Addysg Ôl-16. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ar gyfer y flwyddyn addysgol 2015-16 defnyddiwyd holiadur (papur) penodol ar gyfer myfyrwyr oedd wedi disgyn allan o gyrsiau partneriaeth 14-19. Doedd dim cwestiwn penodol ynglŷn â chludiant ar yr holiadur.<br><br>Ar gyfer y flwyddyn addysgol 2016-17 mae cwestiwn penodol ynglŷn â chludiant wedi'i gynnwys yn yr holiadur ar gyfer myfyrwyr sy'n disgyn allan o gyrsiau partneriaeth yn fuan.<br><br>Hefyd ar gyfer y flwyddyn addysgol 2016-17 bydd holiadur ar-lein ar gael i bob myfyriwr sydd yn gadael unrhyw gwrs yn fuan. Mae cwestiwn penodol ynglŷn â chludiant yn rhan o'r holiadur hwn. | Nid oes unrhyw gyfeiriad at drafferthion cludiant yn yr holiaduron derbyniwyd ar gyfer 2015-16.<br><br>Bydd dadansoddiad o'r holiadur ar gael ar ddechrau tymor yr haf. |



Mae gwaith wedi'i gyflawni mewn perthynas ag argymhelliad 12dd.

| **Argymhelliad** | | **Beth sydd wedi digwydd a phryd** | **Effaith y gweithredu** |
|---|---|---|---|
| 12dd | Dylid parhau gyda'r ymarfer da o'r ddarpariaeth athrawon / darlithwyr peripatetig ac adeiladu ar y sylfaen o weithio mewn partneriaeth a'i adolygu'n rheolaidd. | Mae'r mater wedi drosglwyddo i'r Coleg. | Mater i'r Coleg ydy gweithredu'r argymhelliad. |